**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 03.03.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Ceri Griffiths, Wendy Williams.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), Edwina Evans, Rhian Corps, Gordon Howie, Mark Lewis, Simon Turner, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 8 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi galw y cyfarfod am 7.00 o'r gloch er mwyn i aelodau o'r cyhoedd gael amser i holi y Cyngor am wahanol faterion a bydd cyfarfod cyffredinol y Cyngor yn cychwyn am 7.10 o'r gloch. Fe ddatganodd y Cadeirydd byddai hyn yn parhau bob mis.

Gofynnwyd amrywiol o gwestiynau gan rhai aelodau o'r cyhoedd ynglyn ar cyfarfod a oedd wedi cymeryd lle ar y 19eg o fis diwethaf ag fe eglurwyd bod y cyfarfod hwn wedi cael ei drefnu gan aelodau o Fwrdd HAL a ddim Cyngor Cymuned Harlech.

Gofynnwyd cwestiwn ynglyn ar sefyllfa diweddaraf gyda wefan y Cyngor Cymuned ag fe ddatganwyd gyda lwc bydd y wefan yn fyw erbyn diwedd y mis hwn a bydd y dogfennau angenrheidiol yn cael eu uwchlwytho arni yn gyntaf gyda amrywiol o ddogfenau i ddilyn.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. James Maxwell, Is-Gadeirydd, am gadeirio y cyfarfod mis diwethaf.

Ar ran y Cyngor dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i'r Cyng. Wendy Williams.

Ar ran y Cyngor dymunodd y Cadierydd benblwydd hapus 90 hwyr i'r Cyng. Edwina Evans.

Fe ddatganodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu y cyfarfod oedd wedi cael ei drefnu gan aelodau o Fwrdd HAL

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Chwefror 3ydd 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Edwina Evans ddiddordeb yn llythyr Teulu Castell ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddi a ni chymerodd ran pan drafodwyd y mater.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi ymweld ar toiledau cyhoeddus (ochor merched) ger gwesty'r Queens ag yn siomedig o weld eu cyflwr oherwydd bod rhywun wedi taflu ysbwriel a difrodi bob un ciwbicyl ag 'roedd wedi cysylltu gyda'r adran berthnasol yn Cyngor Gwynedd ynglyn a hyn yn syth ag oedd y gwaith o'I glanhau a trwsio wedi cael ei gario allan erbyn y diwrnod wedyn. Hefyd fe hysbysodd yr Aelodau y bydd yn mynychu cyfarfod gyda'r Heddlu yn Bermo ar ddydd Gwener y 7ed o'r mis hwn ag os byddai ganddynt unrhyw gwestiynau mae nhw eisiau iddi ofyn I'r Heddlu iddynt gysylldu a hi cyn hynny.

Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod wed derbyn cwyn bod ddim sedd yn y lloches bws ger Pen yr Hwylfa. Bod yna goed peryg ar y llwybr ger Pant Mawr, 'roedd wedi mynychu y cyfarfod cyhoeddus a oedd wedi ei drefnu gan HAL, y te prynhawn yn y Neuadd Goffa, gwahanol gyfarfodydd gyda'r Awdurdod Tan. Fe hysbysodd yr Aelodau bod cyfarfod o'r Cyngor llawn yn cael ei gynnal ar y 6ed o'r mis hwn a bydd treth y cyngor yn cael ei drafod a'I gytuno am y flwyddyn ariannol nesa. Fe ddatganodd ei fod wedi cael gwybod bydd ddim mwy o loriau ailgylchu yn dod drwy'r dref.

829……………………………………………Cadeirydd

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £68,113.96 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £36,177.79 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. (Mae hyn ar ol i'r gyllideb gael ei ail wneud).

**HAL a Rhybudd o Gynnig**

**Rhybudd o Gynnig gan y Cyng. Mark Lewis**

Mae Cyngor Cymuned Harlech yn cytuno I gymeryd perchnogaeth o safle Pwll Nofio Harlech a byddant yn prydlesu'r safle cyfan neu rhan ohono I Moelwyn Gymnastics neu tim y "People's Plan. Bydd Cyngor Cymuned Harlech yn dewis un o'r opsiynau hyn erbyn y 26ain o Fawrth neu yn talu £12,000 ar y dyddiad hwnnw I HAL er mwyn clerio eu dyled gyda Chyngor Gwynedd.

**Fe gafodd y Rhybudd o Gynnig uchod ei dynnu yn nol gan y Cyng. Mark Lewis.**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Mark Lewis ar ran Aelodau Bwrdd HAL

HAL / CCH Is-bwyllgor Diweddariad – 3ydd o Fawrth 2025 • Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori cyhoeddus ar y 19eg o Chwefror. HAL/CCH wedi'i wneud ers Rhagfyr. Prynodd y ddau dîm cynnig eu cynlluniau a chyflwynodd atebion i gwestiynau'r cyhoedd. Cafodd y cyhoedd gyfle i ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

• Rhoddodd y ddau dîm cynnig eu cynlluniau terfynol / cynlluniau busnes ar yr 21ain o Chwefror.

• Ar 21ain o Chwefror, daliodd Cyngor Gwynedd £7,500 o ddyled £12,000 sydd owed i HAL. Bydd y gweddill o £4,500 yn cael ei maddebu os dewisir un o'r dwy opsiwn sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Gan fod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'u terfyn amser o ddiwedd Mawrth, nid oes terfyn amser caled bellach ar gyfer penderfynu ar y ffordd ymlaen.

• Ymestynnwyd gohebiaeth eto at y ddau gynnig ynghylch gweithio gyda'n gilydd i gynnwys cyfleusterau naid a nofio ar y safle. Dywedwyd wrthym y byddai'r ddau brosiect yn cystadlu am yr un grantiau cyfyngedig yn y rhanbarth, gan greu sefyllfa lle gallai'r ddau brosiect ddod yn rhan-fuddiol a byddwn yn gorffen gyda dim byd. Mae tîm HAL / CCH wedi rhoi'r gorau i brosiect ar y cyd.

• Mae tîm HAL / CCH nawr yn gwerthuso cynlluniau busnes y ddau gynnig ac yn adrodd yn ôl i'r cyngor pan fydd gennym argymhelliad.

• Mae cyfarfod nesaf tîm HAL / CCH ar y 14eg o Fawrth, ar ôl i Reg a Jim ddychwelyd o'u gwyliau.

Cyflwynodd y Cyng. Simon Turner ddogfen drafft sy'n cwmpasu'r risgiau i Gyngor Cymuned Harlech o gymryd drosodd yr ased.

**Ethol Cynghorydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan y Swyddog Etholiadol ei fod wedi derbyn cais am etholiad ag ei bod wedi derbyn Rhybudd Etholiad ganddo a mae'r cyfnod enwebu ar agor rhwng y 5ed o'r mis hwn hyd at 4.00 o'r gloch ar y 13eg o'r mis hwn.

**Rhandiroedd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan Ms Paula Ireland bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ar y safle uchod a bod 5 rhandir newydd wedi cael eu gosod (rhifau 4, 9, 11 (a), 11 (b) a 12) a bod 4 rhandir yn wag (rhifau 5, 6, 8, 10 a 15/16). 'Roedd wedi cael e-bost pellach gan Ms Ireland yn datgan bod cwpwl eisiau rhentu dau rhandir ag yn datgan eu bod yn bwriadu defnyddio'r plotiau'n bennaf fel lle cymdeithasol gyda bwriad llai o dyfu. Roeddynt yn meddwl am gael pyllau tân bach wedi'u cynnal yn ofalus neu chimenia ac efallai bath lloer, felly byddem yn cadw rhai o'r llwyni mwy yno i gadw rhywfaint o breifatrwydd. Ag oedd Ms Ireland eisiau barn y Cyngor am hyn cyn rhentu y ddau randir iddynt. Hefyd 'roedd Ms Ireland wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Mr. Meirion Evans ynglyn a gwneud llwybrau ar y safle ag oedd wedi rhoid pris o £500 am lafur a pheiriannau i adeiladu llwybr defnyddiol ar hyd llinell y ffens ar plot 11, gan ganiatáu mynediad i plot 12. Yn ogystal, byddai'n codi £100 am ddeunyddiau (is-sylfaen) ynghyd â TAW. Bydd yn levelu'r ardal, cloddio llwybr o faint priodol a llenwi gyda deunydd is-sylfaen (6 tunnell). Fe wnaeth gynnig i drwsio'r difrod i'r ddaear rhwng yr rhandiroedd ar fynwent a byddai yn cario allan y gwaith hwn am ddim. Er ei fod yn brysur iawn, byddai'n barod i gwblhau'r gwaith ym mis Mawrth gan ganiatáu i'r perchnogion plotiau newydd ddechrau cyn gynted ag y bo modd. Mae'n awyddus i roi dyfynbris ar gyfer gwaith pellach a allai fod yn

angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf, er enghraifft adeiladu llwybr ar hyd y plotiau gwaelod gyda phibell ddŵr wedi'i gosod a glanhau'r tir cyffredin a'r ardal wrth ymyl y sied potio. Hefyd 'roedd Ms Ireland yn gofyn a fyddai'n bosib i'r rhai sydd yn rhentu plotiau barcio ar y darn tir rhwng y rhandiroedd ar fynwent a datganodd y Clerc ei bod wedi dweud wrth y byddai hyn yn iawn cyn belled a bod neb yn parcio tu allan i'r gatiau am bod y darn hwn o dir yn perthyn i'r Capel gerllaw. 'Roedd y Clerc wedi derbyn e-bost gan Mrs Stephanie Evans yn hysbysu y Cyngor ei bod yn rhoid gorau i'w ddau rhandir. Fe wnaeth yr Aelodau i gyd dderbyn pris Mr. Meirion Evans. 'Roedd yr Aelodau i gyd yn cytuno bod rhentu rhandiroedd 15/16 i'r pwrpas oedd wedi ei amlinellu uchod ddim yn dderbyniol ag felly 'roeddynt yn gwrthod y cais.

**<u>Cynllun Rheolaeth Llwybr Natur</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Mr. Tom Edwards ynglyn a cario allan y gwaith angenrheidiol fel a oedd wedi cael ei nodi yn yr adroddiad ar y coed ar y safle uchod. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cael gwybod gan Mr. Tom Edwards y byddai yn ymweld ar safle yr wythnos hon.

**<u>Tir Penygraig</u>**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Dylan Edwards, Cyfreithiwr o gwmni Guthrie Jones & Jones ynglyn ar mater uchod yn datgan eu bod wedi derbyn yr arian gan y Cyngor ag y byddant yn nawr yn mynd ymlaen i archebu'r chwiliadau a byddant mewn cysylltiad gyda'r Cyngor yn fuan. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn e-bost arall gan Mr. Dylan Edwards ynglyn ar mater uchod ag yn datgan eu bod yn dal i aros i'r chwiliadau ddod yn nol, ag yn gofyn y cwestiynau canlynol:-

1. A fyddwch chi yn cyfarwyddo syrfewr i wneud y canlynol?:

i. I ganfod a yw`r tir yn ddiogel yn ffisegol i`w brynu;
ii. I wneud asesiad risg o`r safle;
iii. I ganfod a yw`r eiddo yn peryglu eiddo cyfagos;
iv. I adrodd a oes neu a fydd gwariant angenrheidiol ar yr eiddo yn y dyfodol i`w gadw yn ddiogel.

2. Atodwn gopi o TP1 y gofynnir ichi ei harwyddo maes o law. Cyfeireiwn yn benodol at y cymalau canlynol (ond dylech ei darllen i gyd yn ofalus): 4.1.1; 4.1.2; 4.1.3; 4.1.4; a 4.1.4.

3. Deallwn bod Cyngor Harlech yn prydlesu`r eiddo ar hyn o bryd. A gawn ni gopi o`r brydles honno os gwelwch chi yn dda.

4. Cyfeiriwn at gymal 5.2 yn y TP1. A wyddoch chi rywbeth am ` potentially contaminative uses`? Y mae hwn yn bwynt pwysig a all arwain at gostau sylweddol at y dyfodol os yw`r eiddo wedi ei lygru.

5. Cyfeiriwn at gymal 5.4. A wyddoch am unrhyw `Notice`?

6. Bydd y terfynau rhwng yr eiddo hwn a`r eiddo sydd ym meddiant y gwerthwr nas gwerthir ichi yn derfynau a gedwir ar y cyd - cymal 6.3.

7. A wnewch chi gadarnhau nad oes neb ac eithrio Cyngor Harlech yn meddiannu`r eiddo nac yn bresennol ar yr eiddo ar hyn o bryd.
Cytunwyd anfon yr uchod ymlaen I bob Aelod.

**<u>Cyfarfod Pwyllgor Ffordd Ymlaen – 30.1.25 ag adolygu cyhoeddi adroddiad Hanks</u>**

Cyflwynodd y pwyllgor ffordd ymlaen y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ag 'roedd hyn yn cynnwys amserlenni ac argymhellion, pleidleisiodd yr holl aelodau i gytuno ar yr argymhellion a nodwyd gan y pwyllgor ffordd ymlaen.

**Agor Tenderau Torri Gwair**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn un tender ynglyn a cario allan y gwaith uchod gan Mr. Meirion Griffith, Islwyn Talsarnau i dorri gwair y llwybrau cyhoeddus, cae chwarae Llyn y Felin ar fynwent gyhoeddus. Cytunwyd i dderbyn tender Mr. Meirion Griffith. Hefyd cytunwyd i dderbyn pris Mr. Gareth John Williams i dorri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed eto eleni. Cytunwyd i dderbyn y tender hon.
**Gofynnwyd i'r cyhoedd adael yr ystafell pan oedd y mater uchod yn cael ei drafod**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £22,490.52 yn y cyfrif rhedegol a £83,983.99 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Annwen Hughes | - £882.00 - | (cyflog 6 mis) + £685.60 (costau 6 mis) = £1,567.60 |
| Mr. Joe Patton | - £87.55 - | costau gosod yr hysbysfwrdd yn cae chwarae Brenin Sior |
| Mr. Joe Patton | - £10.00 - | ad-dalaid costau archebu planhigion bwytadwy* |
| Play Inspection Company | - £336.00 - | archwiliad cae chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin |
| Brown & Wolfe | - £480.00 - | blaendal 20% tuag at greu gwefan newydd i'r Cyngor |
| Mr. G. J. Williams | - £142.50 - | torri gwair cae chwarae Brenin Sior |
| Un Llais Cymru | - £40.00 - | hyfforddiant Cynghorwr |
| Mr. Lee Warwick | - £256.27 - | glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa |

*Eglurodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton yn datgan oherwydd ei fod wedi derbyn ychydig dros £30 gan bwyllgor Gwyl Gwrw Llanbedr am y nwyddau hyn, na ddim ond £10 o ad-daliad mae yn ofyn am gan y Cyngor.

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,824.75 – cynnig precept (taliad misol)
Cylch Meithrin Harlech - £2,000.00
Cyfeillion Ysgol Tanycastell - £3,000.00
Pwyllgor Hen Lyfrgell - £1,000.00
Pwyllgor Neuadd Goffa - £1,000.00
CFFI Meirionnydd – cytunwyd anfon y llythyr hwn ymlaen i bob Aelod ag i'w drafod mis nesa
Teulu Castell – cytunwyd anfon y llythyr hwn ymlaen i bob Aelod ag i'w drafod mis nesa

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Christopher Braithwaite a wnaeth y Cyng. Martin Hughes gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Ddim derbyniadau wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – £145.00 - gwasanaeth cyfieithu

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ymhellach ei bod wedi gofyn i Ms Luned Fon Jones o Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd a fyddai yn fodlon gweithredu fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor eto eleni ag ei bod wedi cytuno i hyn.

**GOHEBIAETH**

**Mrs K. Smith**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ar ffens sydd wedi malu ar ochor yr A496 ag yn gofyn beth oedd y diweddaraf ynglyn a hyn. Cytunwyd i rhoid y mater ar agenda mis nesa a chytunodd y Cadeirydd i geisio cysylltu gyda perchenog y tir.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn e-bost ynglyn ag enw yr ystad dai newydd ag yn datgan bod y datblygwr wedi dewis yr enw Maes Meillion ag yn gofyn am sylwadau gan y Cyngor ynglyn ar enw hyn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod. Cytunwyd bod gan yr Aelodau ddim sylwadau i'w gwneud ynglyn ar enw hwn.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynghyd a nodyn cyfarwyddyd Eryri ar y system gynllunio ag yn gofyn i'r Cyngor gymeryd sylw ohono pan yn trafod ceisiadau cynllunio. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a dyddiadau hyfforddiant am Chwefror a Mawrth er gwybodaeth i'r Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Play Inspection Company**

Wedi derbyn yr adroddiad ynglyn ar archwiliad 'roeddynt wedi ei gario allan ar y ddau barc chwarae yn ddiweddar. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei gario allan ar y wal gynnal wrth Ivy House yn ystod y mis hwn a bydd angen goleuadau traffig ger y safle. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymru (CHTh), ynghyd a chopi o Gynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru er gwybodaeth I'r Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**ARWYDDWYD..............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................** 833